

Cyfarfod:	Bwrdd Pensiwn
Dyddiad:	17/07/2026
Teitl:	POLISIÂU GWEINYDDOL Y GRONFA BENSIWN
Pwrpas:	Derbyn adborth am gynnwys y polisi gweinyddol newydd
Awdur:	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

1. Cyflwyniad

Dros y blynyddoedd, mae'r Gronfa Bensiwn wedi gweithredu gyda rhai polisiâu gweinyddol sydd wedi llywio ein penderfyniadau a'n gweithredoedd. Fodd bynnag, nid yw'r polisiâu hyn wedi'u dogfennu'n ffurfiol. Yn unol â Chod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau, rydym bellach yn cychwyn y broses o ddogfennu'r polisiâu hyn i sicrhau eglurder, cysondeb a chydymffurfiaeth.

2. Pwrpas

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno polisi gweinyddol i Fwrdd y Gronfa Bensiwn i'w graffu. Mae'r polisi yn bwysig i reoli a gweinyddu'r Gronfa yn effeithiol ac, yn amodol ar sylwadau'r Bwrdd, bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau i'w gymeradwyo yn ei gyfarfod nesaf.

3. Polisi wedi'i gyflwyno

A. Darparu Amcangyfrifon Ymddeol (Atodiad A)

Mae'r polisi hwn yn nodi dull y Gronfa o ddarparu amcangyfrifon ymddeol i aelodau'r cynllun.

Pwrpas y polisi yw sefydlu fframwaith clir a chyson ynghylch nifer yr amcangyfrifon ymddeol y mae'r Gronfa yn fodlon eu darparu i aelodau o fewn blwyddyn dreth. Gall amcangyfrifon ymddeol fod yn ddwys o adnoddau i gynhyrchu ac mae'r galw wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Felly, mae'r polisi yn ceisio cydbwysu anghenion aelodau am wybodaeth cynllunio ymddeol gyda defnydd effeithlon o adnoddau'r Gronfa.

O dan y polisi arfaethedig, bydd y Gronfa yn darparu hyd at **ddau amcangyfrif ymddeol fesul aelod pob blwyddyn dreth**. Ni fydd ceisiadau sy'n fwy na'r terfyn hwn fel arfer yn cael eu prosesu oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol, fel y penderfynir gan yr awdurdod gweinyddu.

4. Meincnodi a Thegwch

Ar ôl ystyried arferion a fabwysiadwyd gan gronfeydd eraill y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, credaf fod y polisi arfaethedig yn deg ac yn gymesur.

Mae nifer o gronfeydd pensiwn yn gweithredu trefniadau mwy cyfyngol. Mae rhai cronfeydd yn darparu amcangyfrifon ymddeol i aelodau sydd o fewn chwe mis i'w dyddiad ymddeol arfaethedig. Mae eraill yn cyfyngu aelodau i un amcangyfrif bob blwyddyn a gallant godi ffi am unrhyw amcangyfrifon ychwanegol y gofynnir amdanynt.

Mewn cymhariaeth, mae'r polisi arfaethedig yn caniatáu i aelodau gael mwy o fynediad at wybodaeth cynllunio ymddeol trwy ddarparu hyd at ddau amcangyfrif bob blwyddyn dreth am ddim. Mae'r dull hwn yn cefnogi aelodau i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch eu hymddeoliad tra'n sicrhau bod adnoddau'r Gronfa yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn deg ar draws yr aelodaeth.

5. Casgliad

Mae dogfennaeth y polisi hwn yn gam sylweddol tuag at wella llywodraethu a gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Rydym yn gofyn am adolygiad trylwyr ac adborth y Bwrdd ar y polisi i sicrhau ei fod yn bodloni'r safonau ymarfer uchaf ac yn darparu cydbwysedd teg rhwng gwasanaeth aelodau a defnydd effeithiol o adnoddau'r Gronfa.

Bydd craffu a chymeradwyaeth y Bwrdd yn helpu i sicrhau gweithrediad llwyddiannus y polisi a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau i'w gymeradwyo.